**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Isobel Everett, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Suzy Davies AC, Comisiynydd ar gyfer y Gyllideb a Llywodraethu
cc Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

10 Mawrth 2020

Annwyl Nick, Adrian, Isobel a Suzy,

**Datganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol**

Fel y gwyddoch, fe gynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymchwiliad byr y llynedd i sicrhau bod cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn defnyddio dull cyson wrth baratoi eu cynigion cyllideb flynyddol. Mewn ymgynghoriad â'r cyrff hyn, ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Ddatganiad o Egwyddorion y mae'n disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol roi sylw iddynt wrth wneud cynigion cyllideb.

Mae'r Datganiad o Egwyddorion yn rhoi ymrwymiad y bydd y Pwyllgor yn adolygu'r ddogfen yn y flwyddyn weithredu ac o bryd i'w gilydd wedi hynny. Yn dilyn y cylch cyllideb diweddaraf, trafododd y Pwyllgor yr Egwyddorion yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2020.

Cydnabu'r Pwyllgor fod dogfennaeth Cyllideb pob corff a ariennir yn uniongyrchol yn dangos yr Egwyddorion i ryw raddau a thrafodwyd hyn yn fanylach mewn sesiynau craffu.

Cytunodd y Pwyllgor na chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud i'r Egwyddorion ar hyn o bryd a dywedodd drachefn y dylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol sicrhau bod eu cyllidebau'n dryloyw, yn ddarbodus ac yn adlewyrchu'r cyfyngiadau ariannol yn y sector cyhoeddus ehangach. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y bydd yn anodd eto eleni i gyrff a ariennir yn uniongyrchol gynllunio eu cynigion cyllideb ar

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

gyfer 2021-22 o ystyried yr ansicrwydd ynghylch yr union newidiadau i floc Cymru, ond gobeithio y byddwch yn parhau i ystyried yr Egwyddorion wrth baratoi cynigion cyllideb eleni.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*